Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gynradd y Pîl
Heol Tafarn y Pîl
Y Pîl
CF33 6AB

12/12/2024

Annwyl Neil Pryce

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2024

Yn ddiweddar, ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd y Pîl i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Gorffennaf 2022.

Yn ystyried yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion, craffu ar dystiolaeth a siarad â disgyblion, staff ac arweinwyr.

Isod, ceir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny. Dylai arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i fyfyrio ar eu llwyddiannau a chefnogi gwelliannau pellach yn y meysydd hyn.

## Ffocws yr ymweliad

### Miniogi gweithdrefnau monitro i ganolbwyntio'n fanwl ar effaith yr addysgu

- Ar ôl yr arolygiad craidd, adolygodd arweinwyr eu prosesau cynllunio gwelliant yn ofalus i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn gywirach â chanlyniadau gweithgareddau hunanwerthuso'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio sail resymegol ehangach ar gyfer monitro wedi'i seilio ar dystiolaeth ac mae'r gweithgareddau hyn bellach yn canolbwyntio'n fwy craff ar y targedau penodol ar gyfer gwella.
- Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar wella ansawdd yr addysgu, er enghraifft i werthuso pa mor dda y mae athrawon yn cynnig her i ddisgyblion ac yn datblygu eu medrau annibynnol a chydweithredol.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod amserlen fonitro'r ysgol yn hylaw ac yn gwneud cysylltiadau clir â dogfennau gwella arwyddocaol eraill. O ganlyniad, mae olrhain blaenoriaethau gwella a chynnydd disgyblion dros gyfnod yn dryloyw ac yn fesuradwy.

- Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o brosesau monitro i werthuso gwaith yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu o ran addysgu a dysgu. Er enghraifft, mae'r ffocws hirdymor ar wella lefelau annibyniaeth disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar allu cynyddol y rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud dewisiadau am yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut.
- Mae arweinwyr wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu diwylliant cydweithredol o hunanwerthuso i wella deilliannau i ddisgyblion. Maent yn cydnabod yr angen i ddatblygu eu gwaith gwerthuso ymhellach trwy gynnwys mwy o staff a llywodraethwyr mewn gweithgareddau monitro ehangach.

**Mireinio'r addysgu i alluogi disgyblion i arfer mwy o annibyniaeth yn yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut**

- Mae arweinwyr wedi ymchwilio i strategaethau addysgu effeithiol yn fanwl. Maent wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr sy'n sicrhau bod athrawon yn deall sut i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion yn effeithiol.
- Mae staff a disgyblion yn datblygu iaith gyffredin ar gyfer dilyniant yn gysylltiedig â gwaith yr ysgol ar wella ansawdd yr addysgu.
- Mae athrawon yn sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddewis sut i gymhwyso'r medrau y maent wedi'u dysgu. Maent yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn gyson dda i amlinellu bwriadau dysgu gwersi. Mae llawer o ddisgyblion hŷn hefyd yn achub ar y cyfle i ddatblygu eu camau eu hunain i lwyddiant ar y cyd. O ganlyniad, maent yn buddsoddi yn eu dysgu ac yn deall yr hyn a ddisgwylir. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r gallu i hunanwirio cynnydd eu dysgu'n annibynnol yn rheolaidd.
- Ar ôl hyfforddiant staff, mae amgylcheddau'r ystafelloedd dosbarth wedi'u gwella ag adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi a hybu annibyniaeth disgyblion. Mae dulliau addysgu wedi gwella hefyd, gan roi mwy o ymreolaeth i ddisgyblion dros yr hyn y maent yn ei ddysgu, sut maent yn dysgu ac â phwy maent yn dysgu.
- Mae'r ysgol yn datblygu diwylliant clir lle mae disgyblion yn dibynnu llai ar gymorth gan oedolion wrth weithio. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau am eu dysgu ac mae ganddynt strategaethau i oresgyn problemau a heriau yn annibynnol. Yn gyffredinol, gall disgyblion nodi eu cryfderau eu hunain a'u meysydd i'w datblygu.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6722227

Hoffem achub ar y cyfle i ddiolch i chi am eich cymorth i gynllunio'r ymweliad a'ch cydweithrediad yn y prosesau gwerthuso.

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol